William Rhys Nicholas, 1914–96
Gweinidog (A), emynydd a bardd

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

W. Rhys Nicholas

Ganed W. Rhys Nicholas ar 23 Mehefin 1914 ym Mhen-parc, Tegryn, plwyf Llanfyrnach. Ef oedd y pumed o naw o blant William a Sarah Nicholas. Yr oedd ei dad yn saer maen ac yn bregethwr cynorthwyol a bu farw'n gymharol ifanc. Mynychai'r teulu gapel Annibynnol Llwyn-yr-hwrdd ac yno y codwyd ef i'r weinidogaeth gan y Parch. Stanley Jones. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Cyngor, Tegryn, ac yna yn ysgol baratoi y Parch. John Philips, Castellnewydd Emlyn, ond yn anffodus fe'i trawyd gan afiechyd a bu yn ysbyty Talgarth am flwyddyn a mwy. Pan ymgeisiodd am fynediad i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ym 1938 yr oedd ymhlith 35 o ymgeiswyr, ac yr oedd hefyd ymhlith y pump a dderbyniwyd. Wedyn aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Abertawe, lle'r enillodd radd anrhydedd yn y Gymraeg.

Wedi gorffen ei gwrs coleg yng Nghaerfyrddin ac ennill gradd BD, ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth mewn oedfa arbennig yng nghapel Llwyn-yr-hwrdd ym 1945, ac fe'i sefydlwyd yn fugail Eglwys y Bryn, Llanelli, ym 1947. Yn ystod ei yrfa bu'n gweinidogaethu yr eglwysi Horeb a Bwlch-y-groes, Ceredigion (1952–65), ac yna yn eglwys y Tabernacl, Porth-cawl, hyd ei ymddeoliad. Priododd â Beti Evans, Bwlchycoryn, ym 1946 a bu hi'n hynod ofalus ohono hyd ei marwolaeth ym 1985.

Bu Rhys Nicholas yn weithgar iawn gydag Undeb yr

Annibynwyr fel cynorthwywr i'r ysgrifennydd cyffredinol, y Parch. Curig Davies. Gwasanaethodd fel cadeirydd golygyddion *Y Caniedydd* a *Caniedydd yr Ifanc* a bu'n gyfarwyddwr cyhoeddi Tŷ John Penri. Ef oedd llywydd yr Undeb am y flwyddyn 1982–83 a theitl ei anerchiad llywyddol oedd 'Maen Prawf Cristnogaeth'. Bu'n gyd-olygydd *Y Genhinen* am bymtheng mlynedd gyda Meuryn ac yna Emlyn Evans ac fe gymerodd ran allweddol yn sefydlu papur bro *Yr Hogwr*. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau o emynau, cerddi a salmau, gan gynnwys *Cerdd a Charol*, *Oedfa'r Ifanc*, *Cerddi mawl*, *Y Mannau Mwyn a Cherddi Eraill*, ynghyd â chofiant i Thomas William, Bethesda'r Fro.

Ond ei gyfraniad pennaf i'n bywyd Cristnogol fel cenedl oedd ei emynau cofiadwy. Meddai ar y ddawn arbennig honno a'i galluogai i fynegi profiadau ysbrydol a mawl calon y Cristion i'w Dduw a'i Waredwr mewn geiriau gwefreiddiol o ddealladwy. Ysgrifennodd am yr emyn gan ddweud, 'Nid sylwadaeth grefyddol yw emyn, nid disgrifiad barddonol o gyflwr crefyddol y dydd, nid apologia dros unrhyw safbwynt diwinyddol arbennig... Ymateb yr enaid unigol i gariad rhyfeddol yr anfeidrol Dduw, a hwnnw'n brigo mewn mawl a mawrhad. Dyna yw gwir emyn.' Yr oedd yr Haleliwia yn ei enaid ef. Y mae pump ar hugain o'i emynau yn y gyfrol *Caneuon Ffydd*. Bu farw yn ei gartref ym Mhorth-cawl ar 2 Hydref 1996.